Cwestiynau Cyffredin SCBA

Pwysig

Er mwyn cael y profiad defnyddiwr gorau posibl, dylech ddefnyddio'r ddogfen ryngweithiol yn Internet Explorer, fersiwn 11 ac uwch. Neu gallwch lawrlwytho'r ddogfen ryngweithiol a'i darllen yn Adobe reader / Acrobat

Mae hwn yn PDF rhyngweithiol. Er mwyn llywio, defnyddiwch y botymau saeth ar naill ochr y dudalen neu ddod o hyd i adran benodol gan ddefnyddio'r bar offer o fewn y ddogfen.

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
Shared Services Partnership
Student Awards Services

Cwestiynau Cyffredin SCBA

Cynnwys

Prif ddewislen SCBA 5

Arweiniad SCBA 6

Sut galla' i wirio cynnydd fy nghais am fwrsariaeth? 6

Beth alla' i ei wneud os nad oes mynediad gennyf at y cyfrif e-bost sydd wedi ei gofrestru â SCBA ac rwyf hefyd wedi anghofio fy enw defnyddiwr/cyfrinair SCBA? 6

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n anghofio fy nghyfrinair SCBA? 6

Beth ddylen i ei wneud os ydw i wedi anghofio fy enw defnyddiwr SCBA? 7

Ble alla' i ddod o hyd i'm Hysbysiad Dyfarnu? 7

Ble alla' i ddod o hyd i statws fy nghyfrif SCBA? 7

Application Queries 8

Oes hawl gennyf gynnwys plant maeth yn yr adran 'Plant dibynnol eraill'? 8

Oes angen i fi ddatgan Lwfans Gofalwr Maeth? 8

Sut mae'r cyfraniad rhieni/priod yn cael ei gyfrif? 8

Pryd a sut bydd y fwrsariaeth yn cael ei thalu? 9

Beth yw'r cyfyngiadau amser ar gyfer gwneud cais am fwrsariaeth GIG? 9

Beth yw myfyriwr annibynnol? 9

Tystiolaeth Gefnogol 10

Oes ffordd o newid o fod yn fyfyriwr dibynnol i fyfyriwr annibynnol? 10

A ellir ailasesu fy nyfarniad bwrsariaeth os yw incwm fy rhiant/rhieni/priod/partner sifil/partner wedi lleihau? 10

Oes angen i fi roi gwybod i chi am unrhyw newid i'm incwm? 11

Oes angen i fi ddarparu tystiolaeth o log banc/cymdeithas adeiladu ac unrhyw incwm arall heb ei ennill? 11

Gallaf ddod â fy nhystiolaeth yn uniongyrchol i'ch swyddfa / swyddfa sganio? 12

Oes angen ailasesu fy nyfarniad bwrsariaeth os yw incwm fy rhiant/rhieni/priod/partner sifil/partner wedi cynyddu? 13

Sut alla' i roi gwybod i chi bod fy nghyfeiriad wedi newid? 14

Sut alla' i roi gwybod i chi bod fy enw wedi newid? 15

Os ydw i neu fy mhartner yn cael babi, pa effaith fydd hyn yn ei gael ar y Lwfans Dibynnydd? 16

Rwy'n fyfyriwr annibynnol ond rwyf newydd briodi, sut bydd hyn yn effeithio ar fy mwrsariaeth? 18

Beth yw ffurflenni P2 a P11D? 19

Beth alla' i ei anfon fel tystiolaeth i brofi fy mod wedi gwahanu wrth briod/partner sifil/partner? 19

Pa dystiolaeth alla' i ei anfon er mwyn profi unrhyw absenoldebau dros dro o'r DU neu'r UE? 20

Pa dystiolaeth alla' i ei anfon er mwyn profi fy enillion o gyflog neu dâl (enillion cyflogedig)? 21

Parhad o'r cynnwys

Pa dystiolaeth alla' fei hanfon er mwyn profi cyfraniadau pensiwn gwaith? 22

Pa dystiolaeth alla' ei hanfon er mwyn profi Lwfans Gofalwr Maeth? 23

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi incwm o lety neu osod tai? 24

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi incwm o bensiwn? 25

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi incwm o lwfans trethadwy? 25

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi incwm o fudd-daliadau trethadwy? 26

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi premiwm yswiriant/ sicrwydd bywyd? 26

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi taliadau morgais? 27

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi cyfraniadau pensiwn personol? 27

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi tanysgrifiadau proffesiynol neu dreuliau eraill sy'n achosi gostyngiadau yn y dreth? 28

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi taliadau rhent? 28

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi incwm o hunangyflogaeth neu gyfarwyddo cwmni? 29

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi fy mod yn fyfyriwr annibynnol oherwydd fy mod yn y system ofal? 30

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi fy mod yn rhan o urdd grefyddol? 30

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi fy mod yn fyfyriwr annibynnol o ganlyniad i farwolaeth fy rhieni? 31

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi fy mod wedi ymddieithrio'n gyfan gwbl â fy rhieni? 32

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi fy mod wedi bod yn breswylydd fel arfer yn y DU? 33

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi bod gennyf statws wedi setlo yn y DU? 34

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn profi bod gennyf statws wedi setlo yn y DU? 36

Pa dystiolaeth alla' i ei hanfon er mwyn dangos fy mod wedi cynnal fy hun o'm henillion fy hun am o leiaf 36 mis? 36

A fyddwch yn derbyn slipiau talu a P60 ar-lein? 37

Pa dystiolaeth sydd angen i fi ei hanfon os oes rhywun arall sy'n rhan o'm cais yn fyfyriwr? 38

Pa dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer plant dibynnol eraill fy rhiant/rhieni neu bartner? 40

Pa dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn hawlio Lwfans Dibynnydd? 41

Pryd bydd angen i fi anfon fy nghytundeb tenantiaeth neu ddatganiad morgais? 42

Pa ddulliau adnabod fyddwch chi'n eu derbyn? 42

Lwfans Ychwanegol 43

Alla i hawlio Lwfans Dibynnydd ar gyfer plant maeth? 43

Sut galla' i wneud cais am Lwfans Dibynnydd os na ymgeisiais amdano ar fy ffurflen gais SCBA wreiddiol? 43

Beth yw Lwfans Dibynnydd ac am bwy gallaf ei hawlio? 44

Beth yw Lwfans Dysgu i Rieni? 44

Parhad o'r cynnwys

Newid amgylchiadau 45

Sut galla' i newid manylion fy nghyfrif banc? 45

Os wyf yn fyfyriwr annibynnol ac mae fy mhriod/ partner/ partner sifil wedi marw'n ddiweddar, sut bydd hyn yn effeithio ar fy mwrsariaeth? 45

Pryd dylwn i ddefnyddio'r dewis 'Rhoi gwybod i ni am newid amgylchiadau' ar fy nghyfrif SCBA? 45

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
Shared Services Partnership Student Awards Services

Cwestiynau Cyffredin SCBA

Prif Ddewislen SCBA

ARWEINIAD SCBA

YMHOLIADAU AM Y CAIS

TYSTIOLAETH GEFNOGOL

LWFANSAU YCHWANEGOL

NEWID AMGYLCHIADAU

Awgrym: defnyddiwch **Ctrl + F** i chwilio am gwestiwn

Sut galla' i wirio cynnydd fy nghais am fwrsariaeth?

Mae cynnydd eich cais i'w weld yn yr adran **'Gweithgareddau'** ar eich sgrin **'Manylion y Myfyriwr'.**

Bydd statws eich cais yn ymddangos fel un o'r canlynol:

Arfaethedig

Mae eich cais cychwynnol wedi cael ei gyflwyno ond nid yw'r dystiolaeth gefnogol wedi cael ei sganio i'ch cyfrif eto, neu rydym wedi edrych ar eich cais/tystiolaeth ond rydym wedi gofyn am ragor o wybodaeth/tystiolaeth i gefnogi eich cais. Mae'r cais wedi cael ei ailosod i'r statws 'arfaethedig' gan asesydd.

Gweithredol

Mae eich cais cychwynnol wedi cael ei gyflwyno ac mae eich tystiolaeth gefnogol wedi cael ei sganio i'ch cyfrif. Mae'r cais yn aros am asesiad.

Wedi'i gymeradwyo

Mae eich cais wedi cael ei asesu.

Wedi'i wrthod

Mae eich cais wedi cael ei wrthod oherwydd eich bod wedi darparu'r wybodaeth anghywir, ac roedd angen i ni wrthod y cais er mwyn eich galluogi i ailymgeisio, neu mae eich cais wedi cael ei wrthod gan nad ydych yn gymwys ar sail ein meini prawf cymhwysedd.

Beth alla' i ei wneud os nad oes mynediad gennyf at y cyfrif e-bost sydd wedi ei gofrestru â SCBA ac rwyf hefyd wedi anghofio fy enw defnyddiwr/cyfrinair SCBA?

Os nad ydych yn gallu defnyddio'r cyfrif e-bost a ddefnyddioch i greu eich cyfrif SCBA, ac rydych wedi anghofio eich manylion mewngofnodi SCBA, bydd angen i chi gysylltu â ni, gan y bydd angen i ni newid eich cyfeiriad e-bost ar eich cyfeiriad SCBA i chi.

Bydd y newid wedi cael ei gwblhau pan fyddwch yn cadarnhau eich cyfeiriad e-bost trwy ddolen mewn neges e-bost a fydd yn cael ei anfon at y cyfeiriad e-bost newydd rydych wedi ei ddarparu.

Pan fyddwch wedi gwneud hyn, bydd modd i chi ddefnyddio'r dolenni anghofio enw defnyddiwr/anghofio cyfrinair ar sgrin mewngofnodi SCBA ar ein gwefan. Bydd eich enw defnyddiwr/ cyfrinair dros dro yn cael eu hanfon at eich cyfrif e-bost newydd.

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i wedi anghofio fy nghyfrinair SCBA?

Dylech ddefnyddio'r ddolen **"Cliciwch yma os ydych wedi anghofio eich cyfrinair"** ar y sgrin mewngofnodi SCBA.

Bydd angen i chi nodi eich cyfeiriad e-bost, ac yna byddwch yn derbyn neges yn dweud bod eich cyfrinair wedi cael ei ailosod a'i anfon atoch dros e-bost.

Ni ddylech gopïo a gludo'r cyfrinair hwn - nodwch y cyfrinair â llaw.

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i wedi anghofio fy enw defnyddiwr SCBA?

Dylech ddefnyddio'r ddolen **"Cliciwch yma os ydych wedi anghofio eich enw defnyddiwr"** ar y sgrin mewngofnodi SCBA.

Yna, byddwch yn derbyn neges yn dweud bod eich enw defnyddiwr wedi cael ei anfon atoch dros e-bost.

Ble alla' i ddod o hyd i'm Hysbysiad Dyfarnu?

Bydd eich Hysbysiad Dyfarnu yn adran 'Dogfennau' eich cyfrif. Ei deitl yw **'Hysbysiad Dyfarnu'**.

Os oes mwy nag un Hysbysiad, fel arfer, mae hyn yn golygu bod eich dyfarniad wedi cael ei adolygu neu ei ail-gyfrifo. Cliciwch ar yr Hysbysiad mwyaf diweddar i weld y dyfarniad cyfredol.

Ble gallaf ddod o hyd i statws fy nghyfrif SCBA?

Er mwyn dod o hyd i statws eich cyfrif, mewngofnodwch i SCBA a bydd y statws yn ymddangos ar frig y dudalen ac ar y chwith, o dan eich enw. Bydd eich statws yn nodi un o'r canlynol:

Heb gyflwyno cais

Ni chyflwynwyd ffurflen gais.

Y cam ymgeisio

Mae eich cais wedi cael ei gyflwyno ond heb gael ei gymeradwyo.

Angen cadarnhau'r cofrestru

Mae eich cais wedi cael ei gymeradwyo, ac rydym yn aros am gadarnhad gan eich prifysgol bod gennych le wedi ei ariannu gan y GIG

Yn cael ei dalu

Mae'r cais wedi cael ei gymeradwyo.

Wedi tynnu yn ôl

Rydym wedi cael ein hysbysu eich bod wedi tynnu yn ôl o'r cwrs

Wedi tynnu yn ôl (cyfnod mamolaeth)
Rydym wedi cael ein hysbysu eich bod wedi tynnu yn ôl o'r cwrs ac ar gyfnod mamolaeth

Yn dychwelyd

Rydych wedi cael ein hysbysu eich bod wedi dychwelyd i'r cwrs

Yn cael ei dalu (estyniad) neu yn ymestyn (estyniad)

Rydym wedi cael ein hysbysu bod eich cwrs yn cael ei ymestyn

Oes hawl gennyf gynnwys plant maeth yn yr adran 'Plant dibynnol eraill'?

Oes. Gellir cynnwys plant maeth yn adran 'Plant dibynnol eraill' eich rhiant/rhieni/priod/partner sifil/partner.

Bydd angen i chi gyflwyno dull adnabod y plentyn a thystiolaeth o'r Lwfans Gofalwr Maeth a dderbynioch yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Oes angen i fi ddatgan Lwfans Gofalwr Maeth?

Oes, mae angen i chi ddatgan Lwfans Gofalwr Maeth ar eich cais fel incwm o hunangyflogaeth.

Sut mae'r cyfraniad rhieni/priod yn cael ei gyfrif?

Y cyfraniad rhieni/priod yw'r swm rydym yn ei dynnu o'ch hawl Dyfarniad Sylfaenol posibl, gan ddibynnu ar incwm eich rhiant/rhieni/priod/partner sifil/partner. Bydd hyn yn ymddangos ar eich Hysbysiad o Ddyfarniad a fydd yn cael ei ddosbarthu pan fydd eich cais wedi cael ei asesu. Nid yw hyn yn golygu bod rhaid i'ch rhiant/rhieni/priod/partner sifil/partner ddarparu'r swm hwn o arian i chi.

Mae'r cyfraniad rhieni/priod wedi cael ei gyfrifo fel £45 a £1 am bob £9.50 o incwm gweddilliol dros £24,279.

Tabl cyfraniad rhieni/priod

Pryd a sut bydd y fwrsariaeth yn cael ei thalu?

Eich prifysgol sy'n gyfrifol am wneud taliadau, felly cysylltwch ag Adran Gyllid eich prifysgol, a fydd yn gallu rhoi rhagor o gyngor i chi.

Cyfraddau cyfrannu rhiant/rhieni, priod, partner sifil, partner			
Os yw'r incwm gweddilliol:	**Swm y cyfraniad bydd:**	**Os yw'r incwm gweddilliol yn:**	**Swm y cyfraniad bydd:**
Under £24,279	Nil	£65,000	£4,331
£24,279	£45	£67,500	£4,594
£25,000	£120	£70,000	£4,857
£27,500	£384	£72,500	£5,120
£30,000	£647	£75,000	£5,384
£32,500	£910	£77,500	£5,647
£35,000	£1,173	£80,000	£5,910
£37,500	£1,436	£82,500	£6,173
£40,000	£1,699	£85,000	£6,436
£42,500	£1,963	£87,500	£6,699
£45,000	£2,226	£90,000	£6,963
£47,500	£2,489	£92,500	£7,226
£50,000	£2,752	£95,000	£7,489
£52,500	£3,015	£97,500	£7,752
£55,000	£3,278	£98,000	£7,805
£57,500	£3,541	£98,500	£7,857
£60,000	£3,805	£99,000	£7,910
£62,500	£4,068	£99,833	£7,998

Nid oes uchafswm trothwy cyfraniad, felly gall y tabl hwn barhau

Beth yw'r cyfyngiadau amser ar gyfer ymgeisio am Fwrsariaeth GIG?

Dylech wneud cais am eich bwrsariaethau GIG cyn gynted ag y byddwch wedi derbyn cynnig cadarn gan eich prifysgol ddewisol. Y dyddiad diweddaraf ar gyfer ymgeisio yw 10 wythnos ar ôl dechrau'r cwrs.

Er mwyn bodloni'r dyddiad cau hwn, mae'n rhaid i chi gyflwyno cais bwrsariaeth ar-lein a derbyn e-bost drwy'r system ar-lein yn cadarnhau'r dystiolaeth y mae angen i chi ei darparu.

Newidiadau yn eich amgylchiadau

Rhaid i chi roi gwybod i ni a darparu'r holl dystiolaeth berthnasol o fewn chwe mis o'r newid er mwyn cael eich ystyried ar gyfer ailasesiad. Mae'r dyddiad cau chwe mis hefyd yn berthnasol os ydych yn gwneud cais am Asesiad Incwm y Flwyddyn Bresennol. Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen Asesiad Incwm y Flwyddyn Bresennol a'r dystiolaeth o fewn chwe mis o'r gostyngiad incwm cychwynnol.

What is an independent student?

Os cewch eich ystyried yn 'annibynnol', ni fydd angen i chi ddarparu manylion incwm eich rhieni er mwyn cael eich asesu ar gyfer y fwrsariaeth seiliedig ar brawf modd. Yn lle hynny, bydd angen i chi ddarparu manylion incwm eich priod, partner sifil neu bartner, os oes gennych un.

Cewch eich ystyried yn annibynnol os gallwch ddangos eich bod yn bodloni un neu fwy o'r canlynol:

- Rydych wedi cefnogi eich hun o'ch enillion eich hunain am gyfanswm o 36 mis cyn dechrau blwyddyn academaidd y cwrs. Ni all yr enillion hyn gynnwys Cyllid Myfyrwyr (neu gyfwerth), benthyciadau a grantiau myfyrwyr neu unrhyw fath arall o ddyfarniad gorfodol. Nid oes angen i'r 36 mis fod yn un cyfnod parhaus, a gall gynnwys unrhyw gyfnodau lle roeddech yn:-
  - cymryd rhan mewn trefniadau hyfforddi ar gyfer pobl ddi-waith dan unrhyw gynllun sy'n cael ei weithredu, ei noddi neu ei ariannu gan awdurdod y wladwriaeth
  - derbyn budd-daliadau sy'n daladwy gan awdurdod y wladwriaeth ar gyfer unigolyn sy'n ddi-waith ond sydd ar gael i weithio
  - ar gael i weithio ac wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodwyd gan awdurdod y wladwriaeth fel amod o dderbyn budd-daliadau neu hyfforddiant
  - derbyn ysgoloriaeth ymchwil neu ddyfarniad tebyg gan y wladwriaeth
  - derbyn unrhyw bensiwn, lwfans neu fudd-daliadau eraill a dalwyd ganlyniad i anabledd, mamolaeth, anaf neu salwch, wedi ei dalu gan unrhyw berson

- Rydych yn briod, neu wedi bod yn briod, mewn partneriaeth sifil neu yn weddw.

- Mae eich rhieni wedi marw.

- Rydych wedi ymddieithrio'n gyfan gwbl (heb unrhyw gyswllt) â'ch rhieni ers dros 12 mis.

- Rydych wedi bodloni Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr PCGC na ellir dod o hyd i'ch rhieni, neu nad yw'n ymarferol, yn rhesymol, y gellir cysylltu â nhw.

- Roeddech yng ngofal awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol, neu dan orchymyn gwarcheidwad ar ei ben-blwydd yn 18 oed, neu yn syth cyn ei gwrs, os nad yw'n 18 oed pan fydd yn dechrau.

- Rydych yn aelod o urdd grefyddol sy'n byw mewn tŷ gyda'r urdd.

- Mae eich rhieni yn byw y tu allan i'r UE dan amgylchiadau lle byddai asesu cyfraniad rhieni yn eu peryglu, neu yn anymarferol, yn rhesymol, iddynt anfon cyfraniad o'r fath i'r DU, er enghraifft maent yn byw mewn gwlad o aflonyddwch gwleidyddol.

- Rydych yn gyfrifol, neu yn gyfrifol ar y cyd, am ofalu am blentyn neu blant dibynnol (dan 18 oed) ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd yr ydych yn gwneud cais amdani, a dechreuodd eich cwrs ar 1 Medi 2007, neu ar ôl hynny.

Alla’ i newid o fod yn fyfyriwr dibynnol i fyfyriwr annibynnol?

Gallwch newid o fod yn fyfyriwr dibynnol i fyfyriwr annibynnol os bydd eich amgylchiadau’n newid.

Os bydd eich amgylchiadau’n newid, bydd angen i chi roi gwybod i ni trwy eich cyfrif SCBA a chyflwyno’r dystiolaeth gefnogol.

Byddai eich statws yn newid o fyfyriwr dibynnol i annibynnol os:

Byddwch yn priodi

- Bydd eich rhieni’n marw
- Byddwch yn cael plentyn, gan gynnwys gwarchodaeth neu fabwysiadu plentyn eich partner.

Os byddwch yn dod yn annibynnol am unrhyw un o’r rhesymau hyn, ni fyddwch yn dod yn annibynnol tan ddechrau’r flwyddyn academaidd nesaf.

Os na sylweddoloch eich bod yn bodloni’r meini prawf ar gyfer cael eich ystyried yn annibynnol ar ddechrau eich blwyddyn academaidd, mae gennych 6 mis i roi gwybod i ni ac anfon tystiolaeth gefnogol atom. Yna, gellir ailasesu eich bwrsariaeth.

Os byddwch yn colli’r dyddiad cau 6 mis, ni allwch ymgeisio am ailasesiad o’ch dyfarniad ar gyfer y flwyddyn academaidd benodol honno. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eich atal rhag ymgeisio fel myfyriwr annibynnol ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

A ellir ailasesu fy mwrsariaeth os bydd incwm fy rhiant/rhieni/priod/partner sifil/partner yn lleihau?

Dyfarniad sylfaenol

Gellir ailasesu cyfraniad eich rhiant/rhieni/priod/partner sifil/partner a dynnwyd o’ch dyfarniad sylfaenol os bu gostyngiad o 15% neu fwy yn incwm y flwyddyn ariannol bresennol, o gymharu â’r ffigwr a nodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Os ydych eisoes yn derbyn uchafswm y dyfarniad sylfaenol, ni fydd gostyngiad incwm yn effeithio ar hyn.

Mewn achosion lle ystyriwyd incwm y ddau riant, rhaid i’r gostyngiad fod yn 15% neu fwy o’r incwm wedi’i gyfuno, nid y rhiant sydd wedi cael gostyngiad incwm yn unig.

Os nad yw’r lefel incwm wedi gostwng 15% neu fwy, ni fydd y dyfarniad yn cael ei addasu yn y flwyddyn academaidd bresennol.

Un rheswm cyffredin nad yw’r ‘incwm presennol’ 15% yn llai yw bod y gostyngiad wedi digwydd tua diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol, sy’n golygu mai mymryn yn unig yn llai yw’r gostyngiad yn yr incwm misol, o gymharu ag incwm y flwyddyn gynt.

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer Asesiad Incwm y Flwyddyn Bresennol, rhaid i chi lenwi ffurflen CYIA Asesu Incwm y Flwyddyn Bresennol (ar gael i’w lawrlwytho ar eich cyfrif SCBA) ac anfon tystiolaeth o’r incwm a ddatganwyd. Rhaid gwneud hyn o fewn 6 mis o’r gostyngiad incwm cychwynnol. Os cafodd eich dyfarniad ei asesu ar sail incwm y ddau riant, bydd angen i’r ddau ddarparu eu manylion incwm presennol, hyd yn oed os un ohonynt yn unig sydd wedi gweld gostyngiad yn ei incwm.

Lwfans Dibynnydd

Os ydych wedi cael eich asesu ar gyfer unrhyw Lwfans Dibynnydd, Lwfans Dysgu i Rieni neu Lwfans Gofal Plant, bydd y lwfansau ychwanegol hyn yn cael eu hailasesu ar yr un pryd â'r dyfarniad sylfaenol.

Incwm pa flwyddyn ariannol fydd yn cael ei ddefnyddio yn yr asesiad hwn?

Mae Asesiad Incwm y Flwyddyn Bresennol yn ystyried incwm y flwyddyn ariannol a ddefnyddiwyd yn eich asesiad gwreiddiol, a'r flwyddyn ariannol ganlynol.

Oes angen i fi roi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'm incwm personol?

Myfyrwyr amser llawn

Dylech ein hysbysu am unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn eich incwm heb ei ennill yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol. Gall hyn gynnwys dechrau derbyn incwm nawdd gan gyflogwr, neu os oeddech yn derbyn pensiwn dibynnydd sydd wedi dod i ben bellach. Os oes angen i chi roi gwybod i ni am unrhyw newid amgylchiadau, dylech gyflwyno ffurflen Newid Amgylchiadau trwy eich cyfrif SCBA ac anfon tystiolaeth o'r incwm newydd.

Oes angen i fi ddarparu tystiolaeth o log banc/ cymdeithas adeiladu ac unrhyw incwm arall heb ei ennill?

Na, nid oes angen i chi roi tystiolaeth o unrhyw ffigyrau sy'n cael eu datgan fel 'llog banc/cymdeithas adeiladu' neu 'Incwm arall heb ei ennill' ar y ffurflen gais.

Bydd methu darparu eich tudalen flaen myfyriwr ac amlen â'ch cyfeiriad arno (os ydych yn anfon tystiolaeth atom) yn arwain at oedi wrth asesu eich cais a dychwelyd eich dogfennau. Hefyd, gall arwain at oedi wrth dalu eich bwrsariaeth.

Beth sydd angen i fi ei anfon gyda fy nhystiolaeth gefnogol/gohebiaeth?

Wrth anfon tystiolaeth/gohebiaeth atom, rhaid i chi gynnwys y canlynol:

- **Tudalen flaen y myfyriwr** – Gallwch argraffu eich tudalen flaen o'r adran 'Dogfennau' yn eich cyfrif SCBA. Mae hwn yn cynnwys eich cyfeirnod cod bar unigryw, sy'n ein galluogi i ddod o hyd i'ch cofnod SCBA a chysylltu eich dogfennau iddo.

- **Amlen ddychwelyd gyda'ch cyfeiriad ac wedi'i thalu o flaen llaw** – Mae hyn yn ein galluogi i ddychwelyd eich tystiolaeth atoch. Rydym yn eich argymell i dalu am bostio wedi ei arwyddo neu ddosbarthu arbennig ar yr amlen hon, fel bod modd i chi ddilyn trywydd eich dogfennau.

A fyddech cystal â phostio eich tystiolaeth/gohebiaeth trwy ddosbarthu arbennig er mwyn sicrhau y bydd eich eitemau'n cyrraedd, at:-

DST-NWSSP-SAS
Cwmbran House Mamhilad Park Estate
Pont-y-pŵl
NP4 0XS

Sylwer – Y cyfeiriad uchod yw'r **unig** gyfeiriad y dylech ei ddefnyddio wrth anfon eich dogfennau.

Pan fyddwch yn postio unrhyw beth atom, a fyddech cystal ag ysgrifennu eich cyfeirnod Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (gellir dod o hyd i hwn ar eich tudalen flaen fyfyriwr) yn llinell gyntaf y cyfeiriad post a'ch cyfeiriad dychwelyd dewisol ar gefn yr amlen sy'n cynnwys eich dogfennau.

Bydd methu darparu eich tudalen flaen myfyriwr ac amlen â'ch cyfeiriad arno (os ydych yn anfon tystiolaeth atom) yn arwain at oedi wrth asesu eich cais a dychwelyd eich dogfennau. Hefyd, gall arwain at oedi wrth dalu eich bwrsariaeth.

Gallaf ddod â fy nhystiolaeth yn uniongyrchol i'ch swyddfa / swyddfa sganio?

Na, **rhaid** anfon pob dogfen, ynghyd â'ch taflen glawr myfyriwr, i'r cyfeiriad isod. **Nid oes unrhyw eithriadau i'r rheol hon.**

DST-NWSSP-SAS
Tŷ Cwmbrân
Ystad Parc Mamheilad
Pont-y-pŵl
NP4 0XS

Noder –Y cyfeiriad uchod yw'r unig gyfeiriad y dylech ei ddefnyddio wrth anfon eich dogfennau.

Beth sydd angen i fi ei anfon gyda fy nhystiolaeth gefnogol/gohebiaeth?

Wrth anfon tystiolaeth/gohebiaeth atom, **rhaid** i chi gynnwys y canlynol:

• **Tudalen flaen y myfyriwr –** Gallwch argraffu eich tudalen flaen o'r adran 'Dogfennau' yn eich cyfrif SCBA. Mae hwn yn cynnwys eich cyfeirnod cod bar unigryw, sy'n ein galluogi i ddod o hyd i'ch cofnod SCBA a chysylltu eich dogfennau iddo.

• **Amlen ddychwelyd gyda'ch cyfeiriad ac wedi'i thalu o flaen llaw –** Mae hyn yn ein galluogi i ddychwelyd eich tystiolaeth atoch. Rydym yn eich argymell i dalu am bostio wedi ei arwyddo neu ddosbarthu arbennig ar yr amlen hon, fel bod modd i chi ddilyn trywydd eich dogfennau.

A fyddech cystal â phostio eich tystiolaeth/gohebiaeth trwy ddosbarthu arbennig er mwyn sicrhau y bydd eich eitemau'n cyrraedd, at:-

DST-NWSSP-SAS
Cwmbran House Mamhilad Park Estate
Pont-y-pŵl
NP4 0XS

Sylwer – Y cyfeiriad uchod yw'r unig gyfeiriad y dylech ei ddefnyddio wrth anfon eich dogfennau.

Pan fyddwch yn postio unrhyw beth atom, a fyddech cystal ag ysgrifennu eich cyfeirnod Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (gellir dod o hyd i hwn ar eich tudalen flaen fyfyriwr) yn llinell gyntaf y cyfeiriad post a'ch cyfeiriad dychwelyd dewisol ar gefn yr amlen sy'n cynnwys eich dogfennau.

Bydd methu darparu eich tudalen flaen myfyriwr ac amlen â'ch cyfeiriad arno (os ydych yn anfon tystiolaeth atom) yn arwain at oedi wrth asesu eich cais a dychwelyd eich dogfennau. Hefyd, gall arwain at oedi wrth dalu eich bwrsariaeth.

A fydd angen ailasesu'r dyfarniad bwrsariaeth os bydd incwm fy rhiant/rhieni/priod/partner sifil/partner yn cynyddu?

Dyfarniad bwrsariaeth sylfaenol

Na fydd – os bydd cynnydd yn yr incwm, ni fydd angen cyflwyno cais newydd. Bydd unrhyw gynnydd mewn incwm yn cael ei godi yn nyfarniad y flwyddyn nesaf.

Yr unig eithriad yw os ydych wedi cael Asesiad Incwm y Flwyddyn Bresennol, ac yna mae'r incwm yn cynyddu'n sydyn ar ôl cyfnod byr. Er enghraifft, os yw incwm eich rhiant/rhieni/priod/partner sifil/partner wedi gostwng 15% oherwydd eu bod wedi cael eu diswyddo, ac yn cael swydd arall yn fuan wedyn, ni fydd Asesiad Incwm y Flwyddyn Bresennol yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r incwm rhacamcanol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Bydd angen i chi gysylltu â ni os bydd y sefyllfa hon yn codi – bydd eich dyfarniad yn dychwelyd i'r asesiad gwreiddiol.

Lwfans Dibynnydd

Na fydd – os bydd cynnydd mewn incwm, ni fydd angen cyflwyno cais newydd. Bydd unrhyw gynnydd yn yr incwm yn cael ei godi yn nyfarniad y flwyddyn nesaf.

Yr unig eithriad yw os ydych wedi cael Asesiad Incwm y Flwyddyn Bresennol, ac yna mae'r incwm yn cynyddu'n sydyn ar ôl cyfnod byr. Er enghraifft, os yw incwm eich rhiant/rhieni/priod/partner sifil/partner wedi gostwng 15% oherwydd eu bod wedi cael eu diswyddo, ac yn cael swydd arall yn fuan wedyn, ni fydd Asesiad Incwm y Flwyddyn Bresennol yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r incwm rhacamcanol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Bydd angen i chi gysylltu â ni os bydd y sefyllfa hon yn codi – bydd eich dyfarniad yn dychwelyd i'r asesiad gwreiddiol.

Beth sydd angen i fi ei anfon gyda fy nhystiolaeth gefnogol/gohebiaeth?

Wrth anfon tystiolaeth/gohebiaeth atom, rhaid i chi gynnwys y canlynol:

- **Tudalen flaen y myfyriwr –** Gallwch argraffu eich tudalen flaen o'r adran 'Dogfennau' yn eich cyfrif SCBA. Mae hwn yn cynnwys eich cyfeirnod cod bar unigryw, sy'n ein galluogi i ddod o hyd i'ch cofnod SCBA a chysylltu eich dogfennau iddo.

- **Amlen ddychwelyd gyda'ch cyfeiriad ac wedi'i thalu oflaen llaw –** Mae hyn yn ein galluogi i ddychwelyd eich tystiolaeth atoch. Rydym yn eich argymell i dalu am bostio wedi ei arwyddo neu ddosbarthu arbennig ar yr amlen hon, fel bod modd i chi ddilyn trywydd eich dogfennau.

A fyddech cystal â phostio eich tystiolaeth/gohebiaeth trwy ddosbarthu arbennig er mwyn sicrhau y bydd eich eitemau'n cyrraedd, at:-

DST-NWSSP-SAS
Cwmbran House
Mamhilad Park Estate
Pont-y-pŵl
NP4 0XS

Sylwer – Y cyfeiriad uchod yw'r unig gyfeiriad y dylech ei ddefnyddio wrth anfon eich dogfennau.

Pan fyddwch yn postio unrhyw beth atom, a fyddech cystal ag ysgrifennu eich cyfeirnod Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (gellir dod o hyd i hwn ar eich tudalen flaen fyfyriwr) yn llinell gyntaf y cyfeiriad post a'ch cyfeiriad dychwelyd dewisol ar gefn yr amlen sy'n cynnwys eich dogfennau.

Bydd methu darparu eich tudalen flaen myfyriwr ac amlen â'ch cyfeiriad arno (os ydych yn anfon tystiolaeth atom) yn arwain at oedi wrth asesu eich cais a dychwelyd eich dogfennau. Hefyd, gall arwain at oedi wrth dalu eich bwrsariaeth.

Sut alla' i roi gwybod i chi bod fy nghyfeiriad wedi newid?

Sut alla' i roi gwybod i chi bod fy nghyfeiriad wedi newid? Bydd angen i chi lenwi ffurflen newid amgylchiadau trwy eich cyfrif SCBA.

Bydd angen i chi anfon tystiolaeth, sef naill ai cytundeb tenantiaeth, datganiad morgais neu lythyr gan eich landlord os ydych yn bodloni un o'r categorïau hyn:

- Rydych yn derbyn Lwfans Dibynnydd, Lwfans Dysgu i Oedolion a/neu Lwfans Gofal Plant.

- Rydych yn symud o gartref eich rhieni i'ch llety eich hun.

Os nad ydych yn syrthio i un o'r categorïau uchod, ni fydd angen i chi anfon tystiolaeth o'ch cyfeiriad newydd.

Bydd y cais newid amgylchiadau yn cael ei brosesu o fewn 30 diwrnod gwaith o sganio'r dystiolaeth i'ch cyfrif SCBA. Caiff eich cyfeiriad ei ddiweddaru yn SCBA pan fydd y cais newid amgylchiadau wedi cael ei brosesu.

Beth sydd angen i fi ei anfon gyda fy nhystiolaeth gefnogol/gohebiaeth?

Wrth anfon tystiolaeth/gohebiaeth atom, rhaid i chi gynnwys y canlynol:

• **Tudalen flaen y myfyriwr –** Gallwch argraffu eich tudalen flaen o'r adran 'Dogfennau' yn eich cyfrif SCBA. Mae hwn yn cynnwys eich cyfeirnod cod bar unigryw, sy'n ein galluogi i ddod o hyd i'ch cofnod SCBA a chysylltu eich dogfennau iddo.

• **Amlen ddychwelyd gyda'ch cyfeiriad ac wedi'i thalu o flaen llaw** – Mae hyn yn ein galluogi i ddychwelyd eich tystiolaeth atoch. Rydym yn eich argymell i dalu am bostio wedi ei arwyddo neu ddosbarthu arbennig ar yr amlen hon, fel bod modd i chi ddilyn trywydd eich dogfennau.

A fyddech cystal â phostio eich tystiolaeth/gohebiaeth trwy ddosbarthu arbennig er mwyn sicrhau y bydd eich eitemau'n cyrraedd, at:-

DST-NWSSP-SAS
Cwmbran House
Mamhilad Park Estate
Pont-y-pŵl
NP4 0XS

Sylwer – Y cyfeiriad uchod yw'r unig gyfeiriad y dylech ei ddefnyddio wrth anfon eich dogfennau.

Pan fyddwch yn postio unrhyw beth atom, a fyddech cystal ag ysgrifennu eich cyfeirnod Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (gellir dod o hyd i hwn ar eich tudalen flaen fyfyriwr) yn llinell gyntaf y cyfeiriad post a'ch cyfeiriad dychwelyd dewisol ar gefn yr amlen sy'n cynnwys eich dogfennau.

Bydd methu darparu eich tudalen flaen myfyriwr ac amlen â'ch cyfeiriad arno (os ydych yn anfon tystiolaeth atom) yn arwain at oedi wrth asesu eich cais a dychwelyd eich dogfennau. Hefyd, gall arwain at oedi wrth dalu eich bwrsariaeth.

Sut alla' i roi gwybod i chi bod fy enw wedi newid?

Bydd angen i chi lenwi ffurflen newid amgylchiadau trwy eich cyfrif SCBA. Bydd angen i chi addasu eich enw ar y ffurflen newid amgylchiadau a'i chyflwyno.

Yna, bydd angen i chi anfon tystiolaeth bod eich enw wedi newid, fel tystysgrif priodas neu weithred newid enw, ynghyd â'r dudalen glawr myfyriwr.

Os nad oes dogfen swyddogol gennych sy'n profi bod eich enw wedi newid, bydd angen i chi anfon llythyr gan berson proffesiynol, gan uwcholeuo'r ddau enw a'ch dyddiad geni. Dylai'r llythyr fod ar bapur pennawd a dylai gynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn/cyfeiriad e-bost y person proffesiynol. Fodd bynnag, os yw'n fater sensitif, lle nad oes unrhyw gyrff allanol ynghlwm, gellir ystyried llythyr gan aelod o'r teulu.

Pan fydd eich ffurflen newid amgylchiadau wedi cael ei brosesu, bydd eich enw'n cael ei ddiweddaru ar eich cyfrif SCBA.

Ni allwn addasu eich enw ar eich tudalen glawr myfyriwr, gan fod hyn yn cael ei greu pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer cyfrif SCBA yn unig. Fodd bynnag, ni fydd yn achosi trafferth, gan mai'r cod bar sy'n cael ei ddefnyddio gennym i ddod o hyd i'ch cofnod.

Beth sydd angen i fi ei anfon gyda fy nhystiolaeth gefnogol/gohebiaeth?

Wrth anfon tystiolaeth/gohebiaeth atom, rhaid i chi gynnwys y canlynol:

• **Tudalen flaen y myfyriwr –** Gallwch argraffu eich tudalen flaen o'r adran 'Dogfennau' yn eich cyfrif SCBA. Mae hwn yn cynnwys eich cyfeirnod cod bar unigryw, sy'n ein galluogi i ddod o hyd i'ch cofnod SCBA a chysylltu eich dogfennau iddo.

• **Amlen ddychwelyd gyda'ch cyfeiriad ac wedi'i thalu o flaen llaw** – Mae hyn yn ein galluogi i ddychwelyd eich tystiolaeth atoch. Rydym yn eich argymell i dalu am bostio wedi ei arwyddo neu ddosbarthu arbennig ar yr amlen hon, fel bod modd i chi ddilyn trywydd eich dogfennau.

A fyddech cystal â phostio eich tystiolaeth/gohebiaeth trwy ddosbarthu arbennig er mwyn sicrhau y bydd eich eitemau'n cyrraedd, at:-

DST-NWSSP-SAS
Cwmbran House
Mamhilad Park Estate
Pont-y-pŵl
NP4 0XS

Sylwer – Y cyfeiriad uchod yw'r unig gyfeiriad y dylech ei ddefnyddio wrth anfon eich dogfennau.

Pan fyddwch yn postio unrhyw beth atom, a fyddech cystal ag ysgrifennu eich cyfeirnod Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (gellir dod o hyd i hwn ar eich tudalen flaen fyfyriwr) yn llinell gyntaf y cyfeiriad post a'ch cyfeiriad dychwelyd dewisol ar gefn yr amlen sy'n cynnwys eich dogfennau.

Bydd methu darparu eich tudalen flaen myfyriwr ac amlen â'ch cyfeiriad arno (os ydych yn anfon tystiolaeth atom) yn arwain at oedi wrth asesu eich cais a dychwelyd eich dogfennau. Hefyd, gall arwain at oedi wrth dalu eich bwrsariaeth.

Os bydda i neu fy mhartner yn cael babi, sut bydd hyn yn effeithio ar y Lwfans Dibynnydd?

Os byddwch chi neu eich partner yn rhoi genedigaeth yn ystod y flwyddyn academaidd, efallai bydd hawl gennych wneud cais am y lwfansau ychwanegol canlynol:

- Lwfans Dibynnydd
- Lwfans Dysgu i Rieni
- Lwfans Gofal Plant

Wedi gwneud cais am lwfansau ychwanegol

Os ydych wedi cael eich asesu ar gyfer Lwfans Dibynnydd, gallwch wneud cais i ychwanegu eich babi newydd i'r asesiad. Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen newid amgylchiadau trwy eich cyfrif SCBA, anfon tystysgrif geni'r babi a thystiolaeth mai chi sy'n gyfrifol am y plentyn yn ariannol, ynghyd â'r dudalen glawr myfyriwr.

Bydd eich hawl newydd am Lwfans Dibynnydd yn cael ei gyfrifo o ddyddiad geni'r babi i ddiwrnod olaf y flwyddyn academaidd.

Beth sydd angen i fi ei anfon gyda fy nhystiolaeth gefnogol/gohebiaeth?

Wrth anfon tystiolaeth/gohebiaeth atom, rhaid i chi gynnwys y canlynol:

• **Tudalen flaen y myfyriwr –** Gallwch argraffu eich tudalen flaen o'r adran 'Dogfennau' yn eich cyfrif SCBA. Mae hwn yn cynnwys eich cyfeirnod cod bar unigryw, sy'n ein galluogi i ddod o hyd i'ch cofnod SCBA a chysylltu eich dogfennau iddo.

• **Amlen ddychwelyd gyda'ch cyfeiriad ac wedi'i thalu o flaen llaw** – Mae hyn yn ein galluogi i ddychwelyd eich tystiolaeth atoch. Rydym yn eich argymell i dalu am bostio wedi ei arwyddo neu ddosbarthu arbennig ar yr amlen hon, fel bod modd i chi ddilyn trywydd eich dogfennau.

A fyddech cystal â phostio eich tystiolaeth/gohebiaeth trwy ddosbarthu arbennig er mwyn sicrhau y bydd eich eitemau'n cyrraedd, at:-

DST-NWSSP-SAS
Cwmbran House
Mamhilad Park Estate
Pont-y-pŵl
NP4 0XS

Sylwer – Y cyfeiriad uchod yw'r unig gyfeiriad y dylech ei ddefnyddio wrth anfon eich dogfennau.

Pan fyddwch yn postio unrhyw beth atom, a fyddech cystal ag ysgrifennu eich cyfeirnod Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (gellir dod o hyd i hwn ar eich tudalen flaen fyfyriwr) yn llinell gyntaf y cyfeiriad post a'ch cyfeiriad dychwelyd dewisol ar gefn yr amlen sy'n cynnwys eich dogfennau.

Bydd methu darparu eich tudalen flaen myfyriwr ac amlen â'ch cyfeiriad arno (os ydych yn anfon tystiolaeth atom) yn arwain at oedi wrth asesu eich cais a dychwelyd eich dogfennau. Hefyd, gall arwain at oedi wrth dalu eich bwrsariaeth.

Heb wneud cais am lwfansau ychwanegol eto

Os ydych yn derbyn y dyfarniad sylfaenol/lwfansau wythnosau ychwanegol yn unig, gallwch wneud cais am Lwfans Dibynnydd ar gyfer eich babi newydd (a'ch partner os yw'n berthnasol).

Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen newid amgylchiadau trwy eich cyfrif SCBA, anfon tystysgrif geni'r babi a thystiolaeth mai chi sy'n gyfrifol am y plentyn yn ariannol, ynghyd â'r dudalen glawr myfyriwr.

Os oes gennych briod/partner/partner sifil, dylech ateb 'Ydy' i'r cwestiwn **'A yw eich amgylchiadau'n newid o ganlyniad i newid yn incwm eich priod/partner/partner sifil o gymharu â'r incwm y mae wedi ei ddatgan eisoes NEU ydych chi'n datgan ei incwm am y tro cyntaf?' (ar gyfer cyfrif dibynyddion ychwanegol, dysgu i rieni a lwfans gofal plant yn unig).** Bydd hyn yn arwain at yr adran incwm a threuliau i'ch priod/partner/partner sifil ei llenwi.

Os ydych yn gwneud cais am Lwfans Dibynnydd i'ch priod/partner/partner sifil, bydd angen i chi anfon dull adnabod ar gyfer eich priod/partner/partner sifil (os na chafodd ei gyflwyno gyda'ch cais gwreiddiol) a thystiolaeth o'r incwm a threuliau.

Bydd eich hawl newydd am Lwfans Dibynnydd, Lwfans Dysgu i Rieni a Lwfans Gofal Plant yn cael ei gyfrifo o ddyddiad geni'r babi i ddiwrnod olaf y flwyddyn academaidd.

Beth sydd angen i fi ei anfon gyda fy nhystiolaeth gefnogol/gohebiaeth?

Wrth anfon tystiolaeth/gohebiaeth atom, rhaid i chi gynnwys y canlynol:

• **Tudalen flaen y myfyriwr –** Gallwch argraffu eich tudalen flaen o'r adran 'Dogfennau' yn eich cyfrif SCBA. Mae hwn yn cynnwys eich cyfeirnod cod bar unigryw, sy'n ein galluogi i ddod o hyd i'ch cofnod SCBA a chysylltu eich dogfennau iddo.

• **Amlen ddychwelyd gyda'ch cyfeiriad ac wedi'i thalu o flaen llaw** – Mae hyn yn ein galluogi i ddychwelyd eich tystiolaeth atoch. Rydym yn eich argymell i dalu am bostio wedi ei arwyddo neu ddosbarthu arbennig ar yr amlen hon, fel bod modd i chi ddilyn trywydd eich dogfennau.

A fyddech cystal â phostio eich tystiolaeth/gohebiaeth trwy ddosbarthu arbennig er mwyn sicrhau y bydd eich eitemau'n cyrraedd, at:-

DST-NWSSP-SAS
Cwmbran House
Mamhilad Park Estate
Pont-y-pŵl
NP4 0XS

Sylwer – Y cyfeiriad uchod yw'r unig gyfeiriad y dylech ei ddefnyddio wrth anfon eich dogfennau.

Pan fyddwch yn postio unrhyw beth atom, a fyddech cystal ag ysgrifennu eich cyfeirnod Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (gellir dod o hyd i hwn ar eich tudalen flaen fyfyriwr) yn llinell gyntaf y cyfeiriad post a'ch cyfeiriad dychwelyd dewisol ar gefn yr amlen sy'n cynnwys eich dogfennau.

Bydd methu darparu eich tudalen flaen myfyriwr ac amlen â'ch cyfeiriad arno (os ydych yn anfon tystiolaeth atom) yn arwain at oedi wrth asesu eich cais a dychwelyd eich dogfennau. Hefyd, gall arwain at oedi wrth dalu eich bwrsariaeth.

Rwy'n fyfyriwr annibynnol ond rwyf newydd briodi, sut bydd hyn yn effeithio ar fy mwrsariaeth?

Eisoes yn byw gyda'i gilydd cyn priodi

Os oedd yr asesiad gwreiddiol yn cynnwys incwm a threuliau eich partner oherwydd eich bod yn cyd-fyw, ni fydd angen ailasesu eich dyfarniad bwrsariaeth sylfaenol nac unrhyw lwfansau ychwanegol eraill yr ydych wedi gwneud cais amdanynt.

I newid eich statws priod ar SCBA, bydd angen i chi lenwi ffurflen newid amgylchiadau ac anfon unrhyw dystiolaeth berthnasol ynghyd â'r dudalen flaen myfyriwr.

Ddim yn cyd-fyw cyn priodi

Os seiliwyd yr asesiad dechreuol ar eich incwm a threuliau oherwydd nad oeddech yn byw gyda'ch partner cyn priodi, bydd angen ailasesu eich dyfarniad bwrsariaeth sylfaenol er mwyn ystyried incwm a threuliau eich priod. Does dim ots os ydych bellach yn byw gyda'ch gilydd. Byddai eich dyfarniad sylfaenol yn ffigwr sy'n cynnwys eich hawliau hyd at ddyddiad y briodas a'ch hawliau newydd, yn dibynnu ar brawf modd incwm eich priod o ddyddiad y briodas hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Hefyd, gallwch wneud cais am Lwfans Dibynnydd ar gyfer eich priod ac unrhyw blant sy'n ddibynnol arnoch yn ariannol.

Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen newid amgylchiadau trwy eich cyfrif SCBA er mwyn cynnwys manylion eich priod. Bydd angen mwy o dystiolaeth arnom i gefnogi eich cais, a byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân.

Beth sydd angen i fi ei anfon gyda fy nhystiolaeth gefnogol/gohebiaeth?

Wrth anfon tystiolaeth/gohebiaeth atom, rhaid i chi gynnwys y canlynol:

• **Tudalen flaen y myfyriwr –** Gallwch argraffu eich tudalen flaen o'r adran 'Dogfennau' yn eich cyfrif SCBA. Mae hwn yn cynnwys eich cyfeirnod cod bar unigryw, sy'n ein galluogi i ddod o hyd i'ch cofnod SCBA a chysylltu eich dogfennau iddo.

